Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Rhybudd am Droseddau Bwyd: FSA-NFCU-A004-2025

Dyddiad cyhoeddi'r rhybudd: 11/07/2025 **Dyddiad diweddaru'r rhybudd:** 11/07/2025

Saffrwm wedi'i ddifwyno - Ychwanegion heb eu Datgan (Lliwiau)

Amodau trin: SWYDDOGOL: Gellir rhannu'r wybodaeth.

Sgôr – OREN

TESTUN Y RHYBUDD

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn gofyn i fusnesau bwyd fod yn ymwybodol bod saffrwm wedi'i ddifwyno wedi'i ganfod ar farchnad y DU.

Mae canlyniadau samplu saffrwm wedi datgelu achosion o ddifwyno trwy ychwanegu lliwiau synthetig, a hynny'n groes i Reoliad 1333/2008.

Canfuwyd problemau hefyd ynghylch saffrwm nad yw'n bodloni'r radd a nodir ar y deunydd pecynnu (Graddau I, II neu III) oherwydd cryfder lliwio sy'n is na'r lefel ofynnol (a fynegir fel Crocin).

Mae samplau nad ydynt yn cydymffurfio yn destun ymholiadau parhaus yn y DU ac yn rhyngwladol.

PAM RYDYM YN CYHOEDDI'R RHYBUDD HWN?

Mae canlyniadau samplu diweddar wedi dangos y gallai lliwiau a/neu ychwanegion, gan gynnwys Tartrazine (E102), Azorubine, Carmoisine (E122) a Ponceau 4R; Cochineal Red A (E124), fod wedi'u hychwanegu at saffrwm, sydd ar gael i'w brynu yn y DU, a hynny er mwyn gwella'r ymddangosiad a rhoi arwydd o ansawdd uwch.

CAMAU GWEITHREDU A ARGYMHELLIR

Os ydych chi'n prynu saffrwm, naill ai i'w werthu neu i'w ddefnyddio mewn cynnyrch i'w brosesu ymhellach, byddwch yn ymwybodol o'r risg o ddifwyno. Ystyriwch y cyngor canlynol:

1. Sicrhewch eich bod yn defnyddio cyflenwyr ag enw da a'ch bod yn eu hadolygu yn unol â pholisïau cymeradwyo cyflenwyr.

2. Byddwch yn ymwybodol o gynnyrch sy'n cael ei gyflenwi am bris is nag y byddech yn ei ddisgwyl, o ystyried ansawdd a gradd y saffrwm sy'n cael ei brynu. Os oes gennych unrhyw amheuon, gofynnwch i'ch cyflenwr am ddogfennau olrhain, gan gynnwys unrhyw adroddiadau dadansoddi.

MAE'R WYBODAETH YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI A GALL NEWID NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.

3. Lle bo modd, cyflwynwch gyfundrefnau samplu i wirio ansawdd y cynnyrch sy'n cael ei gyflenwi.

4. Os oes gennych unrhyw bryderon y gallai cynnyrch fod wedi'i ddifwyno, rhowch wybod i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn: Trechu Troseddau Bwyd yn Gyfrinachol neu drwy radffôn ar 0800 028 1180. Ar gyfer ffonau symudol nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU neu alwadau o dramor, defnyddiwch 0207 276 8787.

CYSYLLTU Â NI
Os byddwch yn dod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r Rhybudd hwn am Drosedd Bwyd, a fyddech cystal â'i rhannu â ni drwy un o'r dulliau canlynol:

GWEFAN – ewch i food.gov.uk/cy a chliciwch ar 'Rhoi gwybod' ar frig y dudalen

FFÔN – 08000 28 11 80

E-BOST – foodcrime@food.gov.uk

Click or tap here to enter text.

Dyfynnwch rif y rhybudd mewn gohebiaeth, sef A004-2025. Mae ein prosesau yn ein galluogi i drin gwybodaeth mewn ffordd gyfrinachol.

MAE'R WYBODAETH YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI A GALL NEWID NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.

CANLLAW I RYBUDDION NFCU

DIFFINIADAU O'R STATWS 'GOLEUADAU TRAFFIG'

COCH	Argymhellir yn gryf: camau gweithredu
MELYN	Argymhellir: camau gweithredu
GWYRDD	Argymhellir: ymwybyddiaeth

FFACTORAU A YSTYRIR GAN YR NFCU WRTH DDIFFINIO'R STATWS 'GOLEUADAU TRAFFIG'

Mae'r NFCU yn cytuno ar statws Goleuadau Traffig fesul achos. Defnyddir y cwestiynau isod i lywio penderfyniadau am y statws Goleuadau Traffig:

- Beth yw maint yr effaith (wedi'i chadarnhau neu'r potensial ar ei chyfer)?
- A oes ôl troed wedi'i gadarnhau yn y DU (mae hyn yn cynnwys cadwyni cyflenwi yn ogystal â busnesau yn y DU)?
- A oes potensial am effaith niweidiol sylweddol ar enw da a hyder diwydiant bwyd y DU?
- A oes unrhyw risgiau diogelwch bwyd cysylltiedig? Os felly, beth yw maint a natur y risgiau hyn? Sylwer: bydd timau eraill o fewn yr ASB yn arwain gweithgarwch gweithredol ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch bwyd.

Asesiad goddrychol yw hwn ac mae pwysoliad gwahanol wedi'i briodoli i'r ffactorau a ystyrir gan yr NFCU. Fel y cyfryw, gall un ffactor ddal mwy o bwysau neu fod yn yrrwr allweddol ar gyfer y statws goleuadau traffig a ddewisir ar gyfer rhybudd.

GWYBODAETH I'R RHAI SY'N CAEL Y RHYBUDD HWN

- Sicrhewch eich bod yn cadw at yr amodau trin a nodir yn y rhybudd.
- Swyddogaeth y rhybudd hwn yw sicrhau bod y diwydiant yn ymwybodol o risgiau troseddau bwyd posib ac yn gallu cymryd camau priodol.
- Mae'r rhybudd hwn hefyd wedi'i rannu ag awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

MAE'R WYBODAETH YN GYWIR AR Y DYDDIAD CYHOEDDI A GALL NEWID NEWID WRTH I FWY O WYBODAETH DDOD I'R AMLWG.